# Busnes Cymdeithasol Cymru

/busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol

Wales Co-operative Centre
Canolfan Cydweithredol Cymru

# Hawliau cyfranddalwyr mewn cwmni a berchnogir gweithwyr



Busnes Cymru | Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Undeb Ewropeaidd
European Union
Llywodraeth Cymru
Welsh Government
Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop
European Regional Development Fund

# Cynnwys


Pwy sy'n berchen ar gyfranddaliadau mewn cwmni a berchnogir gan y gweithwyr? 3

Pam fod angen i chi fod yn ymwybodol o'ch hawliau fel cyfranddaliwr? 3

Mathau o benderfyniadau 3

Gair i gall ynghylch pleidleisio 4

Hawliau allweddol cyfranddalwyr 5

Crynodeb 6

Rhagor o wybodaeth 7



Cyhoeddwyd gan Fusnes Cymdeithasol Cymru, 9 Tachwedd 2015

Ariennir Busnes Cymdeithasol Cymru gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Fe'i darperir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru fel rhan o wasanaeth Busnes Cymru.



Nid yw Busnes Cymdeithasol Cymru yn derbyn unrhyw atebolrwydd am gynnwys y canllaw hwn, nac am ganlyniadau unrhyw gamau a gymerir ar sail yr wybodaeth a roddir.



Mae copïau o'r canllaw hwn ar gael yn /busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol

Hefyd ar gael yn Saesneg. Hefyd ar gael mewn fformat print bras.

Nod y ddogfen hon yw amlinellu rhai o hawliau cyfreithiol allweddol cyfranddalwyr sydd wedi'u cynnwys yn Neddf Cwmnïau 2006. Mae'r wybodaeth hon yn debygol o fod yn ddefnyddiol i weithwyr-gyfranddalwyr unigol ac i Ymddiriedolwyr ymddiriedolaethau budd gweithwyr a chynlluniau cymhelliant cyfranddaliadau.

## Pwy sy'n berchen ar gyfranddaliadau mewn cwmni a berchnogir gan y gweithwyr?

Mewn cwmni a berchnogir gan y gweithwyr mae'n debygol y bydd yr holl gyfranddaliadau sydd wedi'u dyroddi gan y cwmni'n cael eu perchnogi gan un neu gymysgedd o blith gweithwyr, ymddiriedolaeth budd gweithwyr, neu gynllun cymhelliant cyfranddaliadau.

Pam fod angen i chi fod yn ymwybodol o'ch hawliau fel cyfranddaliwr?

Gall cyfranddalwyr wneud penderfyniadau am nifer o faterion sy'n effeithio ar y Cwmni ac fel gweithiwr-berchennog mae i chi fudd o bopeth y mae'r Cwmni'n ei wneud.

Mae cyfranddalwyr yn gallu dylanwadu ar y Cwmni trwy wneud penderfyniadau cyffredin neu arbennig.

Fel cyfranddaliwr gall eich mewnbwn chi i benderfyniadau ei gwneud yn bosib iddynt gael eu pasio neu gael eu hatal.

## Mathau o benderfyniadau

Penderfyniadau cyffredin yw'r penderfyniadau hynny y gellir eu cymeradwyo pan fo mwyafrif syml o gyfranddalwyr yn pleidleisio'n bersonol neu drwy ddirprwy (os caniateir dirprwyon).

Mae rhai penderfyniadau y mae mwyafrif syml yn ofynnol ar eu cyfer yn cynnwys:

- Penodi cyfarwyddwyr mewn cyfarfod cyffredinol;
- Talu difidend terfynol
- Diswyddo cyfarwyddwr cyn i'w dymor ddod i ben;*
- Diswyddo archwiliwr cyn i'w dymor ddod i ben;*
- Rhoi awdurdod i'r cyfarwyddwyr, neu adnewyddu eu hawdurdod, i ddyrannu cyfranddaliadau;
- Arfer yr awdurdod i addasu (ond nid i ostwng) y cyfalaf cyfranddaliadau awdurdodedig.

*Er mwyn diswyddo cyfarwyddwyr neu archwilwyr cyn i'w tymor ddod i ben mae'n ofynnol rhoi rhybudd arbennig ac ni all y cyfnod hwn o rybudd fod yn llai na 28 niwrnod.

Penderfyniadau arbennig yw'r penderfyniadau lle mae'n ofynnol cael o leiaf 75% o'r pleidleisiau a fwriwyd gan gyfranddalwyr sydd â hawl i bleidleisio ar y penderfyniad, yn y cyfarfod yn bersonol neu drwy ddirprwy (os caniateir dirprwyon).

Mae Deddf Cwmnïau 2006 yn ei gwneud yn ofynnol i rai penderfyniadau gael eu gwneud trwy benderfyniad arbennig. Gallai'r rhain gynnwys y canlynol, ond nid ydynt wedi'u cyfyngu iddynt:

- Addasu'r Erthyglau Cymdeithasu;
- Newid enw'r Cwmni, gwerthu'r Cwmni;

- Dirwyn y Cwmni i ben;
- Gostwng y cyfalaf cyfranddaliadau;
- Dyrannu ecwiti;
- Ail-gofrestru'r Cwmni (h.y. Rhestru'r cwmni a'i wneud yn Gwmni Cyfyngedig Cyhoeddus).

Mae'n rhaid i benderfyniadau y mae angen penderfyniad arbennig arnynt gael eu cyflwyno gerbron y Cyfranddalwyr ac mae'n rhaid rhoi dim llai na 21 diwrnod o rybudd i'r aelodau.

Yn ogystal â'r meysydd hynny a nodir gan y Ddeddf Cwmnïau uchod gall Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni hefyd gynnwys penderfyniadau eraill y mae'n ofynnol eu cymeradwyo trwy benderfyniad arbennig. Gallai enghreifftiau o benderfyniadau o'r fath gynnwys:

- Penderfyniad i ymrwymo i gyd-fenter;
- Penderfyniadau ynghylch gwerthu is-gwmnïau;
- Penderfyniadau ynghylch caffaeliadau;
- Penderfyniadau i fenthyca arian dros werth penodol.
- Penderfyniadau mewn perthynas â dogfen ymddiriedolaeth yr YBG.

Mae'n rhaid i'r Cwmni gadw cofnodion ysgrifenedig o'r cyfarfodydd ac unrhyw benderfyniadau gan gyfranddalwyr a gyflwynwyd gerbron ac y pleidleisiwyd arnynt.

# Gair i gall ynghylch pleidleisio

Mewn cwmni nodweddiadol a berchnogir mewn modd confensiynol bydd bod yn berchen ar fwy o gyfranddaliadau ar y cyfan yn golygu bod â mwy o rym. Mae rhai cwmnïau a berchnogir gan y gweithwyr yn defnyddio'r dull yma hefyd, ond nid yw hynny'n digwydd bob amser.

Mae nifer o gwmnïau a berchnogir gan y gweithwyr yn dymuno sicrhau cyfle cyfartal ar gyfer dylanwad a chyfranogiad ymhlith perchnogion ac maent yn dewis gweithredu dull '1 person 1 bleidlais' o berchnogaeth. Yn y bôn mae hyn yn golygu, ni waeth faint o gyfranddaliadau y mae person yn berchen arnynt, mai dim ond 1 bleidlais sydd ganddo/ganddi o hyd yng nghyfarfodydd cyffredinol y cwmni.

Enghraifft

Pe bai cwmni'n dymuno addasu ei Erthyglau Cymdeithasu byddai angen iddo basio penderfyniad arbennig ac i wneud hyn byddai'n ofynnol cael cymeradwyaeth gan 75% o'r cyfranddalwyr. (Deddf Cwmnïau 2006 a21 (1)).

Mae ACME Ltd yn gwmni a berchnogir gan y gweithwyr ac yn cyflogi 30 o bobl. Mae gan y cwmni 100 o gyfranddaliadau sydd wedi'u dyroddi. Mae 5 o'r gweithwyr yn berchen ar 15 o gyfranddaliadau yr un, gyda'r 25 o weithwyr sy'n weddill yn berchen ar un cyfranddaliad yr un.

Dan amgylchiadau 'arferol' gallai'r penderfyniad arbennig gael ei basio gan y 5 gweithiwr sy'n berchen ar 15 o gyfranddaliadau yr un oherwydd ar y cyd byddent yn berchen ar 75% o gyfranddaliadau'r cwmni. Ni fyddai'n gwneud gwahaniaeth bod y 25 o weithwyr sy'n weddill o bosib yn anghytuno.

Fodd bynnag, pe bai cwmni'n gweithredu system '1 person 1 bleidlais', ar gyfer y penderfyniad arbennig byddai'n ofynnol i o leiaf 23 gweithiwr bleidleisio dros basio'r penderfyniad arbennig, er na fyddent o bosib yn berchen ar 75% o'r cyfranddaliadau.

Bydd Erthyglau Cymdeithasu eich cwmni yn manylu ar yr hawliau mewn perthynas â phleidleisiau ac yn nodi a yw pleidleisiau'n rhai '1 person 1 bleidlais' ar gyfer pleidlais ac/neu etholiad. Felly mae'n hanfodol, pan fyddwch yn ystyried eich hawliau fel cyfranddaliwr, eich bod yn cael copi o'r Erthyglau Cymdeithasu i adnabod eich dull pleidleisio.

# Hawliau allweddol cyfranddalwyr

**Os ydych yn berchen ar 100%**

Yn y sefyllfa hon rydych yn llwyr berchen ar y Cwmni ac yn y pen draw gallwch wneud yr holl benderfyniadau sy'n ymwneud â'r cwmni. Mae'r penderfyniadau'n dal i gael eu cynnig gan Fwrdd y Cyfarwyddwyr ond yn y pendraw eich penderfyniad chi yw cymeradwyo neu beidio. Gan fod gennych fwy na 75% o'r cyfranddaliadau gallwch basio unrhyw benderfyniadau arbennig.

Mewn cwmni a berchnogir gan y gweithwyr yr unig gorff sy'n debygol o fod yn berchen ar 100% o'r cyfranddaliadau yw'r Ymddiriedolaeth Budd Gweithwyr. Os yw ymddiriedolaeth budd gweithwyr yn berchen ar 75% o gyfranddaliadau Cwmni bydd yn gallu pasio penderfyniad arbennig, ond gall amodau'r ddogfen Ymddiriedolaeth olygu ei bod yn ofynnol iddi ymgynghori â'i buddiolwyr wrth wneud rhai penderfyniadau allweddol (megis gwerthu'r Cwmni neu gyhoeddi ei gyfranddaliadau ar y farchnad stoc).

**Os ydych yn berchen ar 75%**

Mae bod yn berchen ar 75% o'r Cwmni'n golygu yn y rhan fwyaf o achosion y byddwch yn gallu pasio penderfyniad arbennig. **Oni bai fod eich cwmni'n gweithredu system '1 person 1 bleidlais'.**

Fel uchod yr unig gorff a fyddai'n debygol o fod yn berchen ar 75% o'r cyfranddaliadau yw Ymddiriedolaeth Budd Gweithwyr. Os yw ymddiriedolaeth budd gweithwyr yn berchen ar 75% o gyfranddaliadau Cwmni bydd yn gallu pasio penderfyniad arbennig, ond gall amodau'r ddogfen Ymddiriedolaeth olygu ei bod yn ofynnol iddi ymgynghori â'i buddiolwyr wrth wneud rhai penderfyniadau allweddol (megis gwerthu'r Cwmni neu gyhoeddi ei gyfranddaliadau ar y farchnad stoc).

**Os ydych yn berchen ar 50%**

Os ydych yn berchen ar 50% o'r Cwmni byddwch yn gallu pasio unrhyw benderfyniad cyffredin y mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth gan fwyafrif syml o gyfranddalwyr ar ei gyfer. **Oni bai fod eich cwmni'n gweithredu system '1 person 1 bleidlais'.**

Fel gyda'r 2 lefel perchnogaeth uchod yr unig gorff a fyddai'n debygol o fod yn berchen ar 75% o'r cyfranddaliadau yw Ymddiriedolaeth Budd Gweithwyr. Os yw ymddiriedolaeth budd gweithwyr yn berchen ar 50% o gyfranddaliadau Cwmni bydd yn gallu pasio penderfyniad arbennig, ond gall amodau'r ddogfen Ymddiriedolaeth olygu ei bod yn ofynnol iddi ymgynghori â'i buddiolwyr wrth wneud rhai penderfyniadau allweddol (megis gwerthu'r Cwmni neu gyhoeddi ei gyfranddaliadau ar y farchnad stoc). Er mwyn pasio penderfyniad arbennig byddai arnynt angen i randdeiliaid eraill bleidleisio yn yr un ffordd â hwy.

**Os ydych yn berchen ar 25+%**

Byddwch yn gallu atal unrhyw benderfyniad arbennig, a chymryd nad yw'r Cwmni'n gweithredu system '1 person 1 bleidlais'. Mae hyn yn golygu na fydd y Cwmni'n gallu gwneud y penderfyniadau a restrir uchod gyda'ch cymeradwyaeth a chytundeb.

Gall perchennog sy'n gadael fod mewn sefyllfa lle mae'n dal yn berchen ar dros 25% o'r cyfranddaliadau. Yn ychwanegol at hynny gall Ymddiriedolaeth Budd Gweithwyr fod yn berchen ar dros 25% o'r cyfranddaliadau, ond efallai y bydd y ddogfen ymddiriedolaeth a'r angen i ymgynghori ag ymddiriedolwyr yn effeithio ar eu proses benderfynu.

**Os ydych yn berchen ar 10%**

Mae gennych yr hawl i alw am archwiliad o gyfrifon blynyddol y Cwmni.

**Os ydych yn berchen ar 5%**

Byddwch yn gallu gwrthod i gyfarfod rhwng y cyfranddalwyr gael ei alw ar fyr rybudd (DC 2006 a307(5) a (6). Bydd gennych yr hawl i gylchredeg datganiad ysgrifenedig i'r cyfranddalwyr (DC 2006 a314). Bydd gennych hefyd yr hawl i alw cyfarfod cyffredinol rhwng y cyfranddalwyr (DC 2006 a303).

**Os ydych yn berchen ar unrhyw %**

Os ydych yn weithiwr â chyfranddaliadau, ni waeth pa %, mae'r adran hon yn bwysig i chi gan y bydd yn eich helpu i ddeall rhai o'ch hawliau:

- Gallwch wneud y canlynol:
- Gofyn i'r llys alw cyfarfod cyffredinol (DC 2006 a314);
- Bod â'r hawl i bleidleisio* (DC 2006 a284)(a chymryd bod y cyfranddaliadau'n gyfranddaliadau pleidleisio);
- Yr hawl i dderbyn rhybudd ynghylch cyfarfodydd cyffredinol (DC 2006 a310);
- Yr hawl i ddifidend os yw un yn cael ei ddatgan (Erthyglau enghreifftiol, Erthygl 30);
- Yr hawl i dystysgrif cyfranddaliadau (DC 2006 a769);
- Hawl i'ch enw gael ei gofnodi ar y gofrestr aelodau (DC 2006 a113);
- Hawl i gopi o'r cyfrifon blynyddol (DC 2006 a431);
- Yr hawl i CCB (dim ond os yw'r Erthyglau hefyd yn nodi bod CCB yn ofynnol);
- Yr hawl i archwilio cofnodion cyfarfodydd cyffredinol (DC 2006 a248, 355, 358);
- Yr hawl i archwilio'r gofrestr aelodau a mynegai o enwau'r aelodau heb dâl (DC 2006 116 (1) (a));
- Yr hawl i ofyn am gopi o'r gofrestr cyfranddalwyr o fewn 10 niwrnod yn amodol ar dâl (DC 2006 a116 (2));
- Yr hawl i archwilio'r gofrestr o gontractau gwasanaethau cyfarwyddwyr heb dâl (DC 2006 a229(1)).

*Mae'n bosib trefnu bod cyfranddaliadau a dalwyr cyfranddaliadau'n yn rhai 'â chyfyngiadau' dan amgylchiadau lle mae aelod yn rhoi'r gorau i fod yn weithiwr. Yr effaith yn yr achosion hyn fel arfer yw atal cyn-weithwyr rhag mynychu a gallu pleidleisio mewn cyfarfod cyffredinol. Bydd Erthyglau Cwmni'n nodi a yw hyn yn wir ai peidio.

# Crynodeb

Fel cyfranddaliwr gallwch gael dylanwad ar gyfeiriad y busnes. Caiff yr hyn y gallwch chi ddylanwadu arno ei bennu gan Ddeddf Cwmnïau 2006 ac Erthyglau Cymdeithasu'r Cwmni.

Ar gyfer penderfyniadau a wneir gan y busnes bydd yn ofynnol pasio Penderfyniad Cyffredin neu Arbennig.

# Rhagor o wybodaeth

Lluniwyd y canllaw hwn ar gyfer prosiect Busnes Cymdeithasol Cymru. Ariennir Busnes Cymdeithasol Cymru gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Fe'i darperir gan Ganolfan Cydweithredol Cymru fel rhan o wasanaeth Busnes Cymru.

Nod Busnes Cymdeithasol Cymru yw cefnogi busnesau cymdeithasol sy'n awyddus i dyfu. Am ragor o gymorth, cysylltwch â:

Busnes Cymru: http://busnescymru.llyw.cymru   Ffôn: 03000 6 03000

Neu ewch i'r pecyn cymorth ar-lein http://businesswales.gov.wales/socialbusinesswales/cy

Canolfan Cydweithredol Cymru
Y Borth
13 Ffordd Beddau
Caerffili
CF83 2AX
Ffon: 0300 111 5050
Ebost: info@wales.coop
Y We: www.wales.coop

Mae Canolfan Datblygu a Hyfforddi Cydweithredol Cymru Cyfyngedig (yn masnachu fel Canolfan Cydweithredol Cymru) yn gymdeithas gofrestredig o dan Ddeddf Cwmnïau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, rhif 24287 R.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Ni fydd gohebu â ni yn Gymraeg yn arwain at **unrhyw** oedi.